| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | FFORWM CYLLIDEB YSGOLION |
| **DYDDIAD** | 10 Gorffennaf 2017 |
| **TEITL** | Grantiau Ysgolion 2017/18 |
| **PWRPAS** | Er gwybodaeth |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn yr adroddiad |
| **AWDUR** | Garem Jackson,<br>Pennaeth Addysg (Dros Dro) |
| **AELOD CABINET DROS ADDYSG** | Y Cynghorydd Gareth Thomas |

**Dyma grynodeb fesul sector o'r gwahanol grantiau am 2017/18 –**

| Ysgolion | *GDD 5-15oed* | *GDD dan 5oed* | **GDD cyfanswm** | *GGA Cyfnod Sylfaen damcan-iaethol* | *GGA Eraill* | **GGA cyfanswm** | **Grant 6ed dosbarth** | **Cyfanswm grantiau** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cynradd | *£1,198,971* | *£222,200* | **£1,421,171** | *£3,068,655* | *£620,783* | **£3,689,438** | | **£5,110,609** |
| Canol | *£41,592* | *£2,800* | **£44,392** | *£53,316* | *£23,129* | **£76,445** | | **£120,837** |
| Uwchradd | *£769,638* | | **£769,638** | | *£387,273* | **£387,273** | **£3,407,388** | **£4,564,298** |
| Arbennig | *£35,650* | *£600* | **£36,250** | | *£14,282* | **£14,282** | | **£50,532** |
| **Cyfanswm** | ***£2,045,850*** | ***£225,600*** | **£2,271,450** | ***£3,121,971*** | ***£1,045,467*** | **£4,167,438** | **£3,407,388** | **£9,846,276** |

Mae **atodiad 1** yn manylu ar y prif grantiau sydd wedi'i datganoli i pob ysgol yng Ngwynedd am 2017/18 – cyfanswm o £9.8miliwn uwchben y £71miliwn a ddyrennir gan y Cyngor.

**Grant Datblygu Disgyblion (GDD) 2017/18 £2,271,450** (2016/17 £2,203,350)
Cyn Grant Amddifadedd Disgyblion (GAD) wedi'i ail-enwi, ond gyda'r un dibenion. Dyrennir y grant ar sail nifer disgyblion gyda hawl cinio am ddim. Ar gyfer yr elfen disgyblion o oed ysgol statudol 5-15 oed £1,150 y pen a £600 y pen am yr elfen disgyblion dan 5 oed. Pwrpas y grant ydi targedu ein disgyblion mwyaf difreintiedig i wella safonau llythrennedd, rhifedd a hefyd i gau'r bwlch rhwng y plant hyn a'u cyfoedion.

**Grant Gwella Addysg (GGA) 2017/18 £4,167,438** (2016/17 £4,171,818)
Pwrpas y GGA ydi codi safonau addysgu. Mae fformiwla benodol ar gyfer adnabod elfen ddamcaniaethol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, gyda gofyn i weithio tuag at gymhareb o 1:8 oedolyn i ddisgyblion yn y blynyddoedd meithrin a derbyn a chymhareb o 1:15 ym mlynyddoedd 1 a 2.

Mae gweddill y GGA yn cael ei ddyrannu ar sail 80% nifer disgyblion a 20% ar sail niferoedd cinio am ddim.

Mae GwE yn cynnig cefnogaeth gynhwysfawr i ysgolion ar eu defnydd o'r GGA a'r GDD, gan gymryd cyfrifoldeb dros fonitro a herio'u defnydd o'r cyllid hwn.

**Grant 6ed dosbarth 2017/18 £3,407,388** (2016/17 £3,277,221)
O'r 14 ysgol uwchradd yng Ngwynedd mae 7 yn darparu cyrsiau 6ed dosbarth. Mae'r grant yn cael ei ddyrannu ar sail cyfuniad o nifer disgyblion/nifer cyrsiau, amddifadedd, gwasgared ac addysg cyfrwng Gymraeg.